



# Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

2010 mccc 1

Nodiadau Esboniadol

# Children and Families (Wales) Measure 2010

2010 nawm 1

Explanatory Notes

£9.75

## **MESUR PLANT A THEULUOEDD (CYMRU) 2010**

---

### **NODIADAU ESBONIADOL**

#### **Cyflwyniad**

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer y Mesur arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru) a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 10 Tachwedd 2009 ac a gymeradwywyd gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor ar 10 Chwefror 2010. Maent wedi eu paratoi gan Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, Adran Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ac Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynorthwyo'r darllenydd i ddeall y Mesur. Nid ydynt yn rhan o'r Mesur ac nid ydynt wedi eu hawdurdodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
2. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Mesur. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Mesur. Felly, pan na fo'n ymddangos bod angen i unrhyw adran, neu ran o adran gael ei hesbonio, ni roddir esboniad.

Mae pedair rhan i'r Mesur, sef:

- Rhan 1: Tlodi Plant, Chwarae a Chyfranogi
- Rhan 2: Gwarchod Plant a Gofal Dydd ar gyfer Plant
- Rhan 3: Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd
- Rhan 4: Amrywiol a Chyffredinol

Caiff pob Rhan ei hesbonio yn ei thro isod.

#### **Rhan 1: Tlodi Plant, Chwarae a Chyfranogi**

3. Mae Rhan 1 o'r Mesur yn gwneud darpariaeth ynglŷn â chyfrannu at ddileu tlodi plant, yn darparu dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant ac yn gwneud darpariaeth ynghylch trefnu i blant gyfranogi mewn penderfyniadau gan awdurdodau lleol a allai effeithio arnynt hwy.

# **CHILDREN AND FAMILIES (WALES) MEASURE 2010**

---

## **EXPLANATORY NOTES**

### **Introduction**

1. These Explanatory Notes are for the Children and Families (Wales) Measure 2010 (“the Measure”) which was passed by the National Assembly for Wales (“the Assembly”) on 10 November 2009 and approved by Her Majesty in Council on 10 February 2010. They have been prepared by the Welsh Assembly Government’s Department of Social Justice and Local Government, Department of Children, Education and Lifelong Learning and Skills and Department of Health and Social Services to assist understanding of the Measure. They do not form part of the Measure and have not been endorsed by the Assembly.
2. The Explanatory Notes should be read in conjunction with the Measure. They are not intended to be a comprehensive description of the Measure. Therefore, where a section, or part of a section, does not appear to require any explanation, none is given.

There are four parts to the Measure; they are:

- Part 1: Child Poverty, Play and Participation
- Part 2: Child Minding and Day Care for Children
- Part 3: Integrated Family Support Teams
- Part 4: Miscellaneous and General

Each Part is explained in turn below.

### **Part 1: Child Poverty, Play and Participation**

3. Part 1 of the Measure makes provision about contributing to the eradication of child poverty, places a duty on local authorities to secure sufficient play opportunities for children and makes provision about arrangements for the participation of children in local authority decisions that might affect them.

## **Rhan 1, Pennod 1: Dileu Tlodi Plant**

### **Adran 1: Y nodau eang i gyfrannu at ddileu tlodi plant**

4. Yn yr adran hon gosodir cyfres o nodau eang sy'n debyg, os dilynrir hwy, o gyfrannu at ddileu tlodi plant. Mae'r nodau eang hyn yn gymwys at ddibenion unrhyw ddarpariaeth bellach a wneir o dan Ran 1. Mae'r nodau wedi eu pennu ym mharagraffau (a) i (m) o is-adran (2) ac maent yn cynnwys nodau sy'n ymwneud ag incwm teuluol, amddifadedd sylweddol a ffactorau cymdeithasol sy'n berthnasol i achosion tlodi plant. Prif ddiben y rhestr hon o nodau yw gosod y maes y bydd yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus penodedig yng Nghymru (gweler adran 6) ddewis amcanion ohono i'w cynnwys yn eu strategaethau tlodi plant (gweler adran 2).
5. Mae is-adran (8) yn gwneud darpariaeth i'r nodau eang gael eu diwygio drwy orchymyn Gweinidogion Cymru. Mae gorchmynion o dan yr is-adran hon yn ddarostyngedig i weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru cyn iddynt gael eu gwneud, sy'n golygu bod yn rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan y Cynulliad cyn iddynt gael eu gwneud (gweler adran 74 (5)).
6. Mae is-adrannau (3) a (4) yn pennu bod y "grwpiau incwm perthnasol" y cyfeirir atynt yn y nodau yn is-adrannau (2)(a) a (b) yn grwpiau incwm a ddiffinnir drwy gyfeirio at incwm aelwyd canolrifol y DU. Y nod eang yn is-adran (2)(a) yw na fydd unrhyw blant yn byw ar aelwydydd lle mae'r incwm yn llai na 60% o incwm aelwyd canolrifol y Deyrnas Unedig. Y nod eang yn is-adran (2)(b) yw na fydd unrhyw blant sy'n byw ar aelwydydd lle mae'r incwm yn llai na 70% o incwm aelwyd canolrifol y DU "wedi'u hamddifadu'n sylweddol".
7. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddweud sut y penderfynir ar incwm canolrifol ac amddifadedd sylweddol at y dibenion hyn.
8. Mae is-adran (6) yn gwneud darpariaeth os digwydd i'r ddyletswydd a osodir ar awdurdodau Cymreig i lunio strategaeth ddod i rym yn gynharach nag unrhyw reoliadau o dan is-adran (5). Os digwydd hynny, rhaid i'r awdurdodau Cymreig ffurfio barn eu hunain ynglŷn â'r hyn a olygir wrth amddifadedd sylweddol a dangosyddion perthynol i incwm canolrifol.

### **Adran 2: Strategaethau i gyfrannu at ddileu tlodi plant**

9. Mae adran 2 yn gosod dyletswydd ar "awdurdodau Cymreig" i baratoi a chyhoeddi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru. Rhaid i'r strategaeth nodi amcanion sydd i'w dewis gan yr awdurdod, sy'n ymwneud â'r nodau eang, yn berthnasol i swyddogaethau'r awdurdod ac yn amcanion y gellir ymgynhyrdd atynt drwy arfer y swyddogaethau hynny.

## **Part 1, Chapter 1: Eradicating Child Poverty**

### **Section 1: Broad aims for contributing to the eradication of child poverty**

4. This section sets a range of broad aims which, if pursued, are likely to contribute to the eradication of child poverty. These broad aims apply for the purposes of further provision made under Part 1. The aims are specified in paragraphs (a) to (m) of subsections (2) and they include aims which relate to household income, material deprivation and social factors relevant to the causes of child poverty. The main purpose of this list of aims is to set the field from which specified public authorities in Wales (see section 6) must choose objectives for inclusion in their child poverty strategies (see section 2).
5. Subsection (8) makes provision for the broad aims to be amended by order of the Welsh Ministers. Orders under this subsection are subject to an affirmative resolution procedure in the Assembly before they are made, which means that they must be approved by the Assembly before they are made (see section 74(5)).
6. Subsections (3) and (4) specify that the “relevant income groups” referred to in the aims in subsections (2)(a) and (b) are income groups defined by reference to the UK median household income. The broad aim in subsection (2)(a) is that there should be no household with children where the household income is less than 60 per cent of the median household income in the United Kingdom. The broad aim of subsection (2)(b) is that no children living in households where income is less than 70 per cent of the UK median household income should be “materially deprived”.
7. Welsh Ministers may make regulations to say how median income and material deprivation are determined for these purposes.
8. Subsection (6) makes provision in the event that the duty on Welsh authorities to prepare a strategy comes into force before any regulations are made under subsection (5). In that event, Welsh authorities must take their own view on what the material deprivation and median-related indicators mean.

### **Section 2: Strategies for contributing to the eradication of child poverty**

9. Section 2 imposes a duty on “Welsh authorities” to prepare and publish a strategy for contributing to the eradication of child poverty in Wales. The strategy should set out objectives chosen by the authority which relate to the broad aims which are relevant to, and which can be pursued in, the exercise of its functions. The strategy must also contain

Rhaid i'r strategaeth hefyd gynnwys y gweithredoedd sydd i'w cyflawni a'r swyddogaethau sydd i'w harfer gan yr awdurdod at y diben o gyrraedd ei amcanion. Yn achos Gweinidogion Cymru a'r awdurdodau lleol, rhaid iddynt ddewis amcanion sy'n ymwneud â phob un o'r nodau eang.

10. Mae is-adran (4) yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru, wrth lunio eu strategaeth, ddewis amcanion sy'n ymwneud â'u pwerau i ddarparu cyllid i unrhyw berson.
11. Mae is-adran (5) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i bennu amcanion penodol i awdurdod Cymreig uwchlaw unrhyw amcanion y gallai'r awdurdod Cymreig ddewis iddo ef ei hun.
12. Rhoddir rhestr o'r awdurdodau Cymreig sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd o lunio a chyhoeddi strategaeth yn adran 6.
13. Gwneir darpariaethau ynglŷn â llunio a chyhoeddi strategaethau yn Adrannau 3 i 5 o'r Mesur hwn, ac yn adran 26 o Ddeddf Plant 2004 (fel y'i diwygiwyd gan adran 4 o'r Mesur).

### **Adran 3: Strategaethau a lunnir gan Weinidogion Cymru**

14. Mae adran 3 yn nodi darpariaeth ynghylch gwneud, cyhoeddi ac adolygu strategaethau o dan Ran 1 o'r Mesur sy'n cael eu llunio gan Weinidogion Cymru.
15. Mae is-adran (1) yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi eu strategaeth gyntaf o dan y Mesur yn 2010; mae'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gadw golwg ar eu strategaeth yn gyson ac yn rhoi pŵer iddynt ail-lunio neu ddiwygio eu strategaeth o bryd i'w gilydd.
16. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol a'r personau eraill y maent o'r farn eu bod yn briodol cyn gwneud, ail-wneud neu adolygu eu strategaeth (is-adran (2)).
17. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i'r strategaeth (newydd neu ddiwygiedig) gael ei chyhoeddi ac mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw strategaeth newydd neu ddiwygiedig gael ei gosod gerbron y Cynulliad. Ar ôl diwygio, caiff Gweinidogion Cymru naill ai gyhoeddi dogfen sy'n nodi'r diwygiadau neu gyhoeddi'r strategaeth gyda'r diwygiadau wedi eu cynnwys ynddi.
18. Mae is-adran (6) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi yn 2013, ac ym mhob drydedd flwyddyn wedi hynny, adroddiad a fydd yn cynnwys asesiad i ba raddau y cyrhaeddwyd yr amcanion, ac os na

the actions to be performed and functions to be exercised by the authority for the purpose of achieving its objectives. In the case of the Welsh Ministers and local authorities, they must choose objectives which relate to each of the broad aims.

10. Subsection (4) provides that Welsh Ministers must, in preparing their strategy, choose objectives which relate to their powers to provide funding to any person.
11. Subsection (5) gives the Welsh Ministers a power to make regulations to specify particular objectives for a Welsh authority over and above any objectives which the Welsh authority might chose for itself.
12. The list of Welsh authorities which are subject to the duty to prepare and publish a strategy is set out in section 6.
13. Provision about the preparation and publication of strategies are set out in sections 3 to 5 of the Measure and section 26 of the Children Act 2004 ("the 2004 Act") (as amended by section 4 of the Measure).

### **Section 3: Strategies prepared by the Welsh Ministers**

14. Section 3 sets out provision about the making, publication and review of strategies under Part 1 of the Measure that are prepared by the Welsh Ministers.
15. Subsection (1) provides that the Welsh Ministers must publish their first strategy under the Measure in 2010; it requires them to keep their strategy under review and empowers them to remake or revise it from time to time.
16. The Welsh Ministers must consult the Secretary of State and such other persons as they consider appropriate before making, remaking or revising their strategy (subsection (2)).
17. Subsection (4) requires that the strategy (new or revised) is published and subsection (5) requires that any new or revised strategy must be laid before the Assembly. Following revision, the Welsh Ministers may either publish a document setting out the revisions or publish the strategy with the revisions incorporated.
18. Subsection (6) requires that the Welsh Ministers publish a report in 2013 and in every third year subsequently, containing an assessment of the extent to which objectives have been met and if objectives have not been met, progress that has been made towards meeting them. Reports must be laid before the Assembly.

chyrhaeddwyd unrhyw amcan, y cynnydd a wnaed tuag at gyrraedd yr amcan hwnnw. Rhaid gosod yr adroddiadau gerbron y Cynulliad.

**Adran 4: Strategaethau a lunnir gan awdurdodau lleol (awdurdodau gwasanaethau plant)**

19. Mae adran 4 yn diwygio adran 26 o Ddeddf Plant 2004 ("Deddf 2004") fel bod, yn achos awdurdod lleol, y ddyletswydd i gael strategaeth tlodi plant wedi ei chysylltu â'r ddyletswydd bresennol o dan yr adran honno i baratoi cynllun sy'n dweud, yn fwy cyffredinol, sut y bydd cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc. Mae is-adran (1) yn darparu y gellir cyflawni dyletswydd yr awdurdod lleol i gyhoeddi strategaeth drwy gyhoeddi cynllun o dan adran 26 o Ddeddf 2004. Mae'r ddyletswydd bresennol wedi ei diwygio gan is-adran (3) fel bod rhaid i awdurdod lleol gynnwys yn ei gynllun ei strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru o dan is-adran 2(1) o'r Mesur.
20. Yn ogystal â'i strategaeth tlodi plant ei hunan, caiff awdurdod lleol gynnwys hefyd strategaethau tlodi plant awdurdodau Cymreig eraill y gwnaeth drefniant â hwy o dan adran 25 o Ddeddf 2004. Yn hyn o beth, gweler hefyd adran 5(4) a 5(5) sy'n darparu, os yw strategaeth tlodi plant awdurdod Cymreig arall wedi ei hymgorffori yng nghynllun yr awdurdod lleol o dan Ddeddf 2004, fod dyletswydd yr awdurdod lleol o dan adran 2 o'r Mesur oherwydd hynny wedi ei chyflawni.

**Adran 5: Strategaethau a lunnir gan awdurdodau Cymreig eraill**

21. Mae adran 5 yn gwneud darpariaeth ynglŷn â'r strategaethau sydd i'w llunio gan awdurdodau Cymreig eraill ac eithrio Gweinidogion Cymru ac awdurdodau lleol. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau ynglŷn â gwneud, cyhoeddi ac adolygu eu strategaethau ac ynghylch ymgynghori am eu strategaethau (is-adran (3)).
22. Mae adran 25 o Ddeddf 2004 yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i wneud trefniadau i hybu cydweithrediad rhwng yr awdurdod a'i "bartneriaid perthnasol", a bennir yn is-adran (4) o'r adran honno. Mae dau o'r partneriaid hyn hefyd yn awdurdodau Cymreig at ddiben Rhan 1 o'r Mesur, sef bwrdd iechyd lleol ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (os yw'n darparu gwasanaethau yn ardal yr awdurdod). Gall yr awdurdodau Cymreig hyn gyflawni eu dyletswydd o dan adran 2 o'r Mesur drwy drefnu i'r strategaeth gael ei chynnwys fel rhan annatod o gynlluniau pob awdurdod lleol y maent yn ymrwymo i drefniadau gyda hwy o dan Ddeddf 2004 yn hytrach na llunio a chyhoeddi cynllun ar wahân o'u heiddo eu hunain (is-adranau (4) a (5)). Dim ond wrth drefnu i'w strategaeth gael ei hymgorffori ym mhob un o gynlluniau'r awdurdodau lleol



#### **Section 4: Strategies prepared by local authorities (children's service authorities)**

19. Section 4 makes amendments to section 26 of the 2004 Act so that, for a local authority, the duty to have a child poverty strategy is linked to the existing duty under that section to prepare a plan saying how, more broadly, it will discharge its functions in relation to children and young persons. Subsection (1) provides that a local authority's duty to publish a strategy is discharged by the publication of a plan under section 26 of the 2004 Act. The existing duty is amended by subsection (3) so that a local authority must include in its plan its strategy for contributing to the eradication of child poverty in Wales under section 2(1) of the Measure.
20. As well as their own child poverty strategy, a local authority may also include the child poverty strategies of other Welsh authorities with whom it has made an arrangement under section 25 of the 2004 Act. In this regard, see also section 5(4) and 5(5) which make provision that if another Welsh authority's child poverty strategy is incorporated into the local authority's plan under the 2004 Act, then its duty under section 2 of the Measure is discharged.

#### **Section 5: Strategies prepared by other Welsh authorities**

21. Section 5 makes provision about the strategies to be prepared by Welsh authorities other than the Welsh Ministers and local authorities. The Welsh Ministers may make regulations about the making, publication and review of their strategies and consultation on their strategies (subsection (3)).
22. Section 25 of the 2004 Act places a duty on a local authority to make arrangements to promote co-operation between the authority and its "relevant partners", who are specified in subsection (4) of that section. Two of these partners are also Welsh authorities for the purpose of Part 1 of the Measure. They are a local health board and the Public Health Wales National Health Service Trust (if it is providing services in the area of the authority). These Welsh authorities can discharge their duty under section 2 of the Measure by having the strategy included as an integral part of the plans of each local authority with whom they enter into arrangements under the 2004 Act, rather than preparing and publishing a separate plan of their own (subsections (4) and (5)). A Welsh authority which exercises functions in relation to more than one local authority area will only discharge its duty to prepare and publish a strategy by having its strategy incorporated into each of the plans of the local authorities in question.

o dan sylw y bydd awdurdod Cymreig yn cyflawni ei ddyletswydd i lunio a chyhoeddi strategaeth.

#### **Adran 6: Yr awdurdodau Cymreig**

23. Mae adran 6 yn pennu pa awdurdodau Cymreig sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd o dan adran 2 o'r Mesur. Mae is-adran (2) yn caniatáu i'r rhestr gael ei diwygio drwy orchymyn Gweinidogion Cymru. Byddai angen i'r cyfryw orchymyn gael ei gymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru cyn iddo gael ei wneud (gweler adran 74(5)), a rhaid ymgynghori ag unrhyw berson y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu ei ychwanegu cyn iddo gael ei ychwanegu at y rhestr (is-adran (3)).
24. Yn is-adran (4) eglurir mai'r unig gyrrff y ceir eu cynnwys ar y rhestr yw personau sydd â swyddogaethau o natur gyhoeddus, ac y mae eu prif swyddogaethau yn ymwneud ag un neu ragor o'r meysydd yn Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Ni chynhwysir tribiwnlysoedd sy'n dod o fewn y categori hwn.
25. Yn achos unrhyw berson a ychwanegir at y rhestr ac sydd â swyddogaethau o natur gyhoeddus a rhai o natur breifat, dim ond mewn perthynas â'r rhai o blith ei swyddogaethau sydd o natur gyhoeddus y caniateir iddo gael ei gynnwys yn y rhestr (is-adran (5)).

#### **Adran 7: Dyletswydd awdurdod lleol i sicrhau bod gofal plant ar gael**

26. Mae is-adran (1) yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau lleoedd gofal plant yn ddi-dâl ar gyfer plant penodol nad ydynt o oedran ysgol gorfodol. Mae gweithrediad yr adran hon yn dibynnu ar ddarpariaeth bellach sydd i'w gwneud mewn rheoliadau gan Weinidogion Cymru ynghylch –
  - y math o ofal plant y mae'n rhaid ei ddarparu,
  - y cyfnodau pryd y mae i fod ar gael,
  - y disgrifiad o'r plentyn y mae'r gofal i'w roi ar gael ar ei gyfer (gan gynnwys yr oedran y mae'n rhaid iddo fod wedi ei gyrraedd).
27. Yn is-adran (3) diffinnir 'gofal plant' fel naill ai gwarchod plant neu ofal dydd, o fath y mae'n rhaid iddo fod wedi ei gofrestru gan Weinidogion Cymru<sup>1</sup> o dan Ran 2 o'r Mesur hwn, neu ofal o fath sydd wedi ei gymeradwyo'n unol â chynllun credydau treth a wnaed gan Weinidogion Cymru.

---

<sup>1</sup> Mae swyddogaethau Gweinidogion Cymru o ran cofrestru ac arolygu gwasanaethau gwarchod plant a gofal dydd yn cael eu cyflawni gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

## **Section 6: The Welsh authorities**

23. Section 6 sets out which Welsh authorities are subject to the duty under Section 2 of the Measure. Subsection (2) allows for the list to be amended by order of the Welsh Ministers. Such an order would need to be approved by the Assembly before being made (see section 74(5)) and any person the Welsh Ministers intend to add must be consulted before being added to the list (subsection (3)).
24. Subsection (4) makes it clear that the only persons who can be included on the list are persons having functions of a public nature whose principal functions relate to one or more of the fields in Part 1 of Schedule 5 to the Government of Wales Act 2006. Tribunals which fall within this category are excluded.
25. Any person added to the list who has functions of both a public and a private nature may only be included in the list in relation to those of its functions which are of a public nature (subsection (5)).

## **Section 7: Local authority duty to secure the availability of free childcare**

26. Subsection (1) places a duty on local authorities to secure free childcare places for certain children who are not of compulsory school age. The operation of this section depends upon further provision to be made in regulations by the Welsh Ministers about—
  - the type of childcare that must be provided,
  - the periods for which it is to be available,
  - the description of the child for whom the care is to be made available (including the age they must have attained).
27. In subsection (3) ‘childcare’ is defined as being either child minding or day care, of a sort which must be registered with the Welsh Ministers<sup>1</sup> under Part 2 of this Measure or care which is approved in accordance with a tax credits scheme made by Welsh Ministers.

## **Section 8: Parental support services: powers of a local authority**

28. Subsection (1) gives local authorities a power to provide, secure or participate in the provision of parental support services. These services are defined in subsection (3) as training in parenting skills or any other service to promote or facilitate effective parenting. Authorities will be able to provide these services directly themselves, commission them from others or collaborate with others in the provision of them.

---

<sup>1</sup> The functions of the Welsh Ministers in respect of the registration and inspection of child minding and day care are discharged by the Care and Social Services Inspectorate for Wales.

**Adran 8: Gwasanaethau cymorth i rieni: pwerau awdurdod lleol**

28. Mae is-adran (1) yn rhoi pŵer i awdurdodau lleol i ddarparu, sicrhau y darperir, neu gymryd rhan wrth ddarparu gwasanaethau cymorth iechyd. Mae'r gwasanaethau hyn wedi eu diffinio yn is-adran (3) fel hyfforddiant mewn sgiliau rhianta neu unrhyw wasanaeth arall i hybu neu hwyluso rhianta effeithiol. Bydd awdurdodau'n gallu darparu'r gwasanaethau hyn yn uniongyrchol eu hunain, eu comisiynu oddi wrth eraill neu gydlafurio gydag eraill i'w darparu.
29. Mae is-adran (2) yn mynnu bod rhaid darparu pa bynnag wasanaethau cymorth i rieni a ddarperir gan awdurdodau lleol gan ddefnyddio'u pwerau o dan is-adran (1) yn ddi-dâl.

**Adran 9: Gwasanaethau cymorth iechyd: pwerau awdurdod lleol**

30. Mae is-adran (1) yn rhoi i awdurdodau lleol bŵer i ddarparu, sicrhau y darperir, neu gymryd rhan wrth ddarparu gwasanaethau cymorth iechyd. Mae'r gwasanaethau hyn wedi eu diffinio yn is-adran (4) fel gwasanaethau sy'n darparu cymorth mewn perthynas â iechyd plant neu rieni plant. Ond yn achos gwasanaethau i rieni plant, mae'n un o amodau arfer y pŵer hwnnw ei bod yn angenrheidiol sicrhau llesiant plant y rhieni hynny. Nid yw gwasanaethau cymorth iechyd o dan yr adran hon yn cynnwys darparu gwasanaethau meddygol, deintyddol, offthalmig, neu fferyllol.
31. Fel yn achos gwasanaethau cymorth i rieni, caiff awdurdodau naill ai ddarparu'r gwasanaethau yn uniongyrchol eu hunain, eu comisiynu oddi wrth eraill neu gydlafurio gydag eraill i'w darparu.
32. Mae is-adran (2) yn gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol, wrth arfer eu pwerau o dan is-adran (1) i ddarparu, sicrhau y darperir, neu gymryd rhan wrth ddarparu gwasanaethau nyrsio, yn cael cydsyniad y bwrdd iechyd lleol perthnasol.
33. Mae is-adran (3) yn pennu bod rhaid i wasanaethau cymorth iechyd a gwasanaethau ataliol a ddarperir gan awdurdodau lleol gan ddefnyddio'u pwerau o dan is-adran (1) gael eu darparu yn ddi-dâl.

**Adran 10: Rheoliadau am wasanaethau i fynd i'r afael â thlodi plant**

**Mae adran 10 yn gwneud dau brif beth**

34. Yn gyntaf, mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru drwy reoliadau i'r gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau y darperir, yn ddi-dâl, wasanaethau cymorth i rieni neu wasanaethau cymorth iechyd o'r math a ddisgrifir yn

29. Subsection (2) requires that such parental support services as are provided by local authorities using their powers under subsection (1) must be provided free of charge.

### **Section 9: Health support services: powers of a local authority**

30. Subsection (1) gives local authorities a power to provide, secure or participate in the provision of health support services. These services are defined in subsection (4) as services providing assistance in relation to the health of children or parents of children. But in the case of services to parents of children it is a condition of the exercise of the power that the assistance is necessary to secure the well-being of the children of those parents. Health support services under this section do not include the provision of medical, dental, ophthalmic or pharmaceutical services.
31. As with parental support services, authorities can either provide the services directly themselves, commission them from others or collaborate with others in the provision of them.
32. Subsection (2) requires that when exercising their powers under subsection (1) to provide, secure or participate in the provision of nursing services, local authorities must have the agreement of the relevant local health board.
33. Subsection (3) requires that health support and preventative services provided by local authorities using their powers under subsection (1) must be provided free of charge.

### **Section 10: Regulations about services to tackle child poverty**

Section 10 does two main things.

34. First, it empowers the Welsh Ministers by regulations to require local authorities to secure, free of charge, the provision of parental support services or health support services of the kind described in sections 8 and 9 respectively (paragraphs (a) and (b) of subsection (1)). Such regulations may also specify –
- the description of service that must be provided by the authority, and
  - the description of children and parents to whom the duty will apply.

adrannau 8 a 9 yn y drefn honno (paragraffau (a) a (b) o is-adran (1)). Caiff y rheoliadau hynny bennu hefyd –

- y disgrifiad o'r gwasanaeth y mae'n rhaid i'r awdurdod ei ddarparu,
- y disgrifiad o'r plant a'r rhieni y bydd y ddyletswydd yn gymwys iddynt.

35. Yn ail, mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gymhwyso'r ddyletswydd i sicrhau y darperir gofal plant o dan adran 7(1) ac unrhyw ddyletswydd mewn rheoliadau o dan yr adran hon i sicrhau y darperir gwasanaethau cymorth i rieni neu wasanaethau cymorth iechyd mewn dim ond un neu ragor o rannau ardal awdurdod lleol (paragraffau (c) a (d) o is-adran (1)).
36. Mae is-adran (2) yn darparu pan fo Gweinidogion Cymru yn pennu ei bod yn ofynnol i wasanaethau gael eu darparu drwy gyfeirio at ardal, caniateir i'r ardal gael ei phennu neu i'r ardaloedd gael eu pennu yn y rheoliadau neu gallai'r rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol ei hun bennu un neu ragor o ardaloedd.

## **Rhan 1, Pennod 2: Chwarae a Chymryd Rhan**

### **Adran 11: Dyletswyddau awdurdod lleol ynghylch cyfleoedd chwarae i blant**

37. Mae is-adran (1) yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol wneud asesiad o ddigonolrwydd y cyfleoedd chwarae yn ei ardal yn unol â rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Cam cychwynnol yw hwn yn y broses o gyflawni'r ddyletswydd a nodir yn is-adran (3).
38. Caiff rheoliadau bennu materion penodol sydd i'w cymryd i ystyriaeth wrth asesu digonolrwydd; erbyn pa ddyddiad y bydd rhaid gwneud asesiad digonolrwydd; amllder yr asesiadau; pa bryd y cyhoeddir yr asesiad; a pha bryd a sut y dylid ei adolygu.
39. Mae is-adran (3) yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol yn ei ardal, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol yng ngoleuni ei asesiad. Bydd yn rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 17(3) o'r Mesur.
40. Mae is-adran (4) yn gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol yn cyhoeddi gwybodaeth am gyfleoedd chwarae yn eu hardal ac yn cadw'r wybodaeth honno'n gyfoes.
41. Mae is-adran (5) yn darparu y dylai awdurdod lleol, wrth sicrhau cyfleoedd chwarae digonol yn ei ardal, ystyried yn benodol anghenion plant sy'n anabl, anghenion plant o wahanol oedrannau, ac unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

35. Secondly, it empowers the Welsh Ministers to apply the duty to secure the provision of childcare under section 7(1) and any duty in regulations under this section to secure the provision of parental support services or health support services in only one or more parts of a local authority area (paragraphs (c) and (d) of subsection (1).
36. Subsection (2) provides that where the Welsh Ministers specify that services are required to be provided by reference to an area, the area or areas may either be specified in the regulations or the regulations could require the local authority itself to specify one or more areas.

## **Part 1, Chapter 2: Play and Participation**

### **Section 11: Local authority duties in respect of play opportunities for children**

37. Subsection (1) provides that a local authority must carry out an assessment of sufficiency of play opportunities in its area in accordance with regulations made by Welsh Ministers. This is a preliminary step in the performance of the duty set out in subsection (3).
38. Regulations may specify particular matters to be taken into account in assessing sufficiency, the date by which such a sufficiency assessment is to be undertaken, the frequency of assessment, when the assessment is to be published and when and how it should be reviewed.
39. Subsection (3) places a duty on a local authority to secure sufficient play opportunities in its area for children as far as reasonably practicable having regard to its assessment. Local authorities will have to have regard to any guidance issued by the Welsh Ministers under section 17(3) of the Measure.
40. Subsection (4) requires local authorities to publish information about play opportunities in their area and to keep this information up to date.
41. Subsection (5) provides that in securing sufficiency of play opportunities, a local authority should consider in particular the needs of disabled children, the needs of children of different ages and any guidance issued by Welsh Ministers.
42. Subsection (6) clarifies that play includes any recreational activity and that the reference to “sufficiency” in the duty at subsection (1) relates to the quantity and quality of play opportunities.

42. Mae is-adran (6) yn egluro bod "chwarae" yn cynnwys unrhyw weithgaredd hamdden, a bod y cyfeiriad at "ddigonolrwydd" yn is-adran (1) yn gyfeiriad at nifer ac ansawdd y cyfleoedd chwarae.

#### **Adran 12: Plant yn cymryd rhan ym mhenderfyniadau awdurdod lleol**

43. Mae adran 12 yn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol yn gwneud trefniadau i hybu a hwyluso plant i gymryd rhan mewn penderfyniadau ar draws ystod lawn swyddogaethau'r awdurdod sy'n effeithio arnynt. Mae "plant" at y dibenion hyn wedi eu diffinio yn adran 71 yn bersonau sydd o dan 18 oed.
44. Mae is-adran (2) yn gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol yn cyhoeddi gwybodaeth am eu trefniadau i blant gymryd rhan ac yn cadw'r wybodaeth yn gyfoes.
45. Mae is-adran (3) yn diddymu adran 176 o Ddeddf Addysg 2002 fel y'i diwygiwyd. Yr oedd adran 176 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu yng Nghymru i roi sylw i ganllawiau Gweinidogion Cymru ar ymgynghori â disgyblion ynglŷn â phenderfyniadau sy'n effeithio ar y disgyblion. Mae'r ddyletswydd newydd yn gosod dyletswydd i wneud trefniadau sy'n hybu a hwyluso cyfranogiad y plant ym mhenderfyniadau'r awdurdod a allai effeithio arnynt. Mae'r hen ddyletswydd wedi ei goddiweddyd gan y ddyletswydd newydd ac eithrio mewn perthynas â phenderfyniadau sy'n eiddo i gyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yn hytrach nag i'r awdurdod lleol. Mae'r penderfyniadau hynny bellach yn destun darpariaeth ar wahân yn adran 29B o Ddeddf Addysg 2002 (a fewnosodwyd gan adran 157 o Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008).

#### **Rhan 1, Pennod 3: Arolygu, canllawiau a chyfarwyddiadau**

#### **Adran 13: Arolygu**

46. Mae adran 13 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu, drwy reoliadau, ar gyfer arolygu'r modd y mae awdurdodau lleol yn cyflawni'r swyddogaethau a roddir gan adrannau 7 i 12 ac ar gyfer cyhoeddi adroddiadau arolygu. Caiff y rheoliadau ddarparu bod arolygiadau i'w trefnu naill ai gan Weinidogion Cymru neu gan Estyn (sef yr arolygiaeth addysg a hyfforddiant o dan arweiniad Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru) neu unrhyw berson arall o dan drefniadau a wneir gyda Gweinidogion Cymru. Caiff y rheoliadau ddarparu bod adroddiad arolygu yn "freintiedig" at ddibenion y gyfraith ar ddifenwi, oni ellir dangos i'r adroddiad gael ei gyhoeddi gyda malais.



## **Section 12: Participation of children in local authority decision making**

43. Section 12 requires local authorities to make arrangements to promote and facilitate participation by children in decisions across the full range of authorities' functions which affect them. "Children" for these purposes are defined in section 71 as persons below the age of 18.
44. Subsection (2) requires local authorities to publish information about its arrangements for participation and to keep the information up to date.
45. Subsection (3) repeals section 176 of the Education Act 2002 as amended. Section 176 placed a duty on local authorities and governing bodies in Wales to have regard to the Welsh Ministers' guidance about consultation with pupils in connection with the taking of decisions affecting them. The new duty places a duty to make arrangements to promote and facilitate participation by children in decisions of the authority which might affect them. The old duty is overtaken by the new duty except with regards to decisions which are for the governing body of maintained schools and not the local authority, which are now the subject of separate provision in section 29B of the Education Act 2002 (inserted by section 157 of the Education and Skills Act 2008).

## **Part 1, Chapter 3: Inspection, guidance and directions**

### **Section 13: Inspection**

46. Section 13 gives the Welsh Ministers power by regulations to provide for local authorities' performance of the functions conferred by section 7 to 12 to be inspected and for the publication of inspection reports. The regulations can provide that inspections will be organised either by the Welsh Ministers or by Estyn (which is the inspectorate of education and training headed by Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales) or any other person under arrangements made with the Welsh Ministers. The regulations may provide that inspection reports are "privileged" for the purposes of the law of defamation unless it can be shown that publication has been made with malice.

### **Section 14: Powers of entry**

47. Section 14 provides a power of entry at any reasonable time to any local authority premises or premises used in connection with the provision of services or facilities by another person under arrangements with a local authority in the performance of the relevant

**Adran 14: Pwerau mynediad**

47. Mae adran 14 yn darparu pŵer i fynd i mewn ar unrhyw adeg resymol i unrhyw fangre awdurdod lleol, neu fangre a ddefnyddir mewn cysylltiad darparu gwasanaethau neu gyfleusterau gan berson arall o dan drefniadau gydag awdurdod lleol i gyflawni'r swyddogaethau perthnasol o dan y Rhan hon. Nid yw hyn yn cynnwys pŵer i fynd i mewn i fangre sy'n cael ei defnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd breifat.

**Adran 15: Pwerau arolygu**

48. Mae adran 15 yn nodi'r pwerau arolygu sydd gan bersonau sy'n mynd i mewn i fangre at y diben hwnnw. Mae'r pwerau yn cynnwys y pŵer i ymafael mewn dogfennau neu unrhyw bethau eraill sy'n berthnasol i gyflawni'r swyddogaethau dan sylw, ac i'w symud o'r fangre. Mae'n cynnwys hefyd bŵer i'w gwneud yn ofynnol i ganiatáu mynediad at gofnodion neu ddogfennau a fydd hwyrach wedi eu cadw ar gyfrifiadur. Mae unrhyw berson sy'n rhwystro arolygydd rhag arfer pŵer mynediad neu bŵer arolygu, neu'n peidio â chydymffurfio â gofyniad arolygydd, yn cyflawni tramgwydd y gellir ei gosbi ar gollfarniad mewn Llys Ynadon â dirwy nad yw'n uwch na lefel 4 ar y raddfa safonol (£2,500 ar hyn o bryd).

**Adran 16: Pŵer i'w gwneud yn ofynnol bod gwybodaeth yn cael ei rhoi**

49. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud yn ofynnol bod awdurdod lleol neu unrhyw berson yr ymrwymodd yr awdurdod lleol i drefniadau gydag ef wrth arfer y swyddogaethau o dan adrannau 7 i 10, yn darparu iddynt wybodaeth, dogfennau neu gofnodion sy'n berthnasol. Mae'r pŵer yn cynnwys unrhyw wybodaeth, dogfennau neu gofnodion sy'n ymwneud ag arfer swyddogaethau o dan adrannau 7 i 12 ac sy'n angenrheidiol ym marn Gweinidogion Cymru at ddibenion eu swyddogaethau o dan y Rhan hon ac mae hefyd yn cwmpasu sefyllfa lle mae person ar wahân i Weinidogion Cymru yn cynnal arolygiadau am fod rheoliadau o dan adran 13(2) yn darparu ar gyfer hynny.

**Adran 17: Canllawiau**

50. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau Cymreig roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru wrth iddynt arfer eu swyddogaethau pan fo'r canllawiau yn ymwneud ag arfer y swyddogaethau penodol o dan adrannau 1 i 10 neu'n ymwneud yn fwy cyffredinol â champau i hyrwyddo'r amcanion eang i gyfrannu at ddileu tlodi plant.
51. Mae is-adran (3) yn gwneud darpariaeth ar wahân sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir o dan yr adran hon mewn perthynas â'i swyddogaethau o dan adrannau 11 a 12.

functions under this Part. This does not include the power to enter premises used wholly or mainly as a private dwelling.

### **Section 15: Powers of inspection**

48. Section 15 sets out the powers of inspection of those who enter premises for that purpose. It includes a power to seize and remove documents or anything else relevant to the discharge of the functions in question. It also includes power to require access to records or documents which may be stored on a computer. A person who obstructs an inspector exercising a power of entry or inspection, or who fails to comply with the requirement of an inspector, commits an offence, punishable on conviction in a magistrates' court with a fine not exceeding level 4 on the standard scale (currently £2,500).

### **Section 16: Power to require information**

49. This section empowers the Welsh Ministers to require a local authority, or any person with whom the local authority has entered into arrangements in the exercise of the functions under sections 7 to 10, to provide them with relevant information, documents or records. The power extends to any information, documents or records which relate to the exercise of functions under sections 7 to 12 and which the Welsh Ministers consider necessary for the purposes of their functions under this Part. The power also applies where a person other than the Welsh Ministers is carrying out inspections as provided for by regulations made under section 13(2).

### **Section 17: Guidance**

50. This section requires Welsh authorities to have regard to guidance issued by the Welsh Ministers when exercising their functions where the guidance is about the exercise of the specific functions under sections 1 to 10 or more generally about action to promote the broad aims for contributing to the eradication of child poverty.
51. Subsection (3) makes separate provision requiring a local authority to have regard to any guidance issued under this section in relation to its functions under sections 11 and 12.

### **Section 18: Directions**

52. Section 18 gives a power to Welsh Ministers to direct a Welsh authority to take action to secure compliance with the duties under sections 2, 7, 10, 11 or 12 where it is felt that the Welsh authority is failing or is likely to fail to comply with those duties.

## **Adran 18: Cyfarwyddiadau**

52. Mae adran 18 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod Cymreig i gymryd camau i sicrhau cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau o dan adrannau 2, 7, 10, 11 neu 12, os credir bod yr awdurdod Cymreig yn methu, neu'n debygol o fethu â chydymffurfio â'r dyletswyddau hynny.

## **Rhan 2: Gwarchod Plant a Gofal Dydd i Blant**

### **Adran 19 Ystyr "gwarchod plant" a "gofal dydd i blant"**

53. Mae adran 19 yn diffinio "gwarchod plant" a "gofal dydd i blant" at ddiben rheoleiddio'r gweithgareddau hyn o dan Ran 2 o'r Mesur
54. Mae person yn "warchodwr plant" os yw'n gofalu am un neu ragor o blant o dan wyth oed mewn mangre ddomestig er mwyn gwobr.
55. Mae person yn darparu "gofal dydd i blant" os yw'n darparu gofal ar unrhyw adeg i blant o dan wyth oed mewn mangre nad yw'n fangre ddomestig.
56. Mae is-adran (3) yn darparu i Weinidogion Cymru bŵer drwy orchymyn i newid yr oeddrannau y cyfeirir atynt yn y diffiniadau o "warchodwr plant" a "gofal dydd i blant" ac i bennu amgylchiadau a fydd yn gyfystyr ag eithriadau i'r diffiniadau. Ni fydd person y mae ei weithgaredd yn dod o fewn yr amgylchiadau a bennir drwy orchymyn yn warchodwr plant nac yn ddarparydd gofal dydd (yn ôl y digwydd) ac ni fydd yn ofynnol iddo gofrestru naill ai o dan adran 21 neu adran 23. Mae is-adran (5) yn nodi rhestr nad yw'n un hollgynhwysfawr o'r mathau o faterion y caniateir gwneud eithriadau mewn perthynas â hwy: (a) y categori o berson sy'n darparu'r gwasanaeth gwarchod plant neu'r gofal dydd; (b) y plentyn neu'r plant y darperir ef ar ei gyfer neu ar eu cyfer; (c) natur y gwasanaeth gwarchod plant neu'r gofal dydd; (d) y fangre y darperir ef ynnddi; (e) yr adegau pan ddarperir ef; ac (f) y trefniadau y darperir ef oddi tanynt.
57. Y prif ffactor sy'n gwahaniaethu rhwng gwarchod plant a gofal dydd yw a yw plant yn cael gofal ar "fangre ddomestig", a ddiffinnir yn is-adran (6) fel unrhyw fangre sy'n cael ei defnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd breifat.

## **Part 2: Child Minding and Day Care for Children**

### **Section 19: Meaning of “child minding” and “day care for children”**

53. Section 19 defines “child minding” and “day care for children” for the purpose of regulating these activities under Part 2 of the Measure.
54. A person is a “child minder” if they look after one or more children under the age of eight on domestic premises for reward.
55. A person provides “day care for children” if they provide care at any time for children under the age of eight on premises other than domestic premises.
103. Section 42 sets out the powers of inspection of those who enter premises for that purpose. It includes a power to seize and remove documents or anything else which may be evidence of failure to comply with regulatory requirements. It also includes power to require access to records or documents which may be stored on a computer. A person who obstructs an inspector exercising a power of entry or inspection power or who fails to comply with the requirement of an inspector commits an offence and is liable on conviction in a magistrates' court to a fine not exceeding level 4 on the standard scale (currently £2,500).

#### **Section 43: Power of constable to assist in exercising powers of entry**

104. Section 43 provides for a person authorised to enter premises under section 41, where attempts to exercise inspection powers have been thwarted, to apply to a court for a warrant authorising a constable to assist the authorised person, using reasonable force if necessary. The application for a warrant may be in response to a person preventing exercise of the power of entry or another inspection power under section 42.

#### **Section 44: Supply of information to the Welsh Ministers**

105. In addition to the power to see documents and other materials in the course of inspection, the Welsh Ministers may also require any registered child minder or day care provider to provide them with any information connected with that person's activities as a child minder or day care provider which the Welsh Ministers consider necessary for the purposes of their functions under this Part.

#### **Section 45: Supply of information to local authorities**

106. Section 45 provides for the Welsh Ministers to provide information to local authorities about those who are registered to provide child minding or day care. This is necessary to enable the local authority to provide information about the availability of childcare in fulfilment of its functions under section 27 of the Childcare Act 2006 (duty to provide information, advice and assistance). The sharing of the information prescribed is triggered by one of the following steps: granting registration; issuing a notice of intention to cancel registration;

cofrestriad; canslo cofrestriad; atal cofrestriad; tynnu enw person oddi ar y gofrestr ar gais y person hwnnw; neu pan fo ynad heddwch yn gwneud gorchymyn o dan adran 34(2). Mae is-adran (5) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru ddarparu gwybodaeth i berson sy'n arfer swyddogaethau statudol (at ddibenion sy'n gysylltiedig â'r swyddogaethau hynny) ynglŷn ag a yw person wedi ei gofrestru fel gwarchodwr plant neu ddarparydd gofal dydd.

#### **Adran 46 Y tramgwydd o wneud datganiad anwir neu gamarweiniol**

107. Bydd person yn euog o dramgwydd o dan is-adran (1) os yw'n gwneud datganiad anwir neu gamarweiniol gan wybod hynny wrth wneud cais am gofrestriad, a bydd yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy na fydd yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol (£5000 ar hyn o bryd).

#### **Adran 47 Hysbysiadau o gosb**

108. Mae adran 47 yn darparu bod Gweinidogion Cymru yn gosod hysbysiad cosb benodedig ar berson cofrestredig os cânt eu bodloni ei fod wedi cyflawni tramgwydd perthnasol. Mae gan Weinidogion Cymru bŵer i nodi mewn rheoliadau y tramgwyddau hynny y gellir ymdrin â hwy drwy ddefnyddio hysbysiad cosb benodedig. Mae'r cynnig i osod hysbysiad o gosb yn rhoi cyfle i'r person cofrestredig dalu cosb mewn perthynas â thoriad a ganfyddir a chyflawni drwy hynny bob atebolrwydd troseddol am y toriad o dan sylw. Pan fo hysbysiad wedi ei ddyroddi ond bod y gosb heb ei thalu eto, ni chaniateir cychwyn achos ynglŷn â'r tramgwydd y cyfeirir ato yn yr hysbysiad cyn diwedd pa gyfnod bynnag a ragnodir yn yr hysbysiad. Os bydd y person yn talu'r gosb yn unol â'r hysbysiad, ni ellir ei gollfarnu wedyn am y tramgwydd y cyfeirir ato yn yr hysbysiad. Mae'r cosbau yn daladwy i Weinidogion Cymru.

#### **Adran 48 Hysbysiadau o gosb: darpariaeth atodol**

109. Caiff rheoliadau o dan adran 48 wneud darpariaeth ynglŷn â ffurf a chynnwys yr hysbysiadau o gosb, gan gynnwys y symiau ariannol a'r terfynau amser ar gyfer talu, a'r camau sydd i'w cymryd os na thelir y gosb yn unol â'r hysbysiad. Mae is-adran (2) yn darparu y caiff rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer gwahanol gosbau a fyddai'n daladwy mewn gwahanol achosion, a hefyd ar gyfer amrywio'r swm os telir ef ar wahanol adegau. Ni chaiff y swm a ragnodir i'w dalu o dan hysbysiad o gosb fod yn fwy na hanner y ddirwy fwyaf y byddai'n rhaid ei thalu yn dilyn collfarn.



cancelling registration; suspending registration; removing a person from the register at that person's request and if a justice of the peace makes an order under section 34(2). Subsection (5) provides for the Welsh Ministers to provide information to a person exercising statutory functions (for purposes connected to those functions) about whether a person is registered as a child minder or day care provider.

#### **Section 46: Offence of making false or misleading statement**

107. A person will be guilty of an offence under subsection (1) if they knowingly make a false or misleading statement when applying for registration and will be liable on summary conviction to a fine not exceeding level 5 on the standard scale (currently £5000).

#### **Section 47: Penalty notices**

108. Section 47 provides for the Welsh Ministers to impose fixed penalty notices on registered persons where they are satisfied that a person has committed a relevant offence. The Welsh Ministers have power to set out in regulations those offences which will be capable of being dealt with by a fixed penalty notice. The proposal to impose a penalty notice offers the registered person the opportunity of paying a penalty in respect of an identified breach and thereby discharging all criminal liability for the breach in question. Where a notice has been issued but not yet paid, proceedings may not be commenced for the offence to which the notice relates until such time as the period specified in the notice has expired. If the person pays the penalty in accordance with the notice, they cannot then be convicted of an offence to which the notice relates. Penalties are payable to the Welsh Ministers.

#### **Section 48: Penalty notices: supplementary provisions**

109. Regulations under section 48 can make provision about the form and content of the penalty notices including monetary amounts and time limits for payment, and actions to be taken if penalty is not paid in accordance with the penalty notice. Subsection (2) provides that regulations may make provision for different penalties to be payable in different cases and also for the amount to differ if paid at different times. The amount prescribed to be paid under a penalty notice cannot exceed a half of the maximum amount of a fine that would have to be paid on conviction.

**Adran 49 Terfyn amser ar gyfer achosion**

110. Mae adran 49 yn pennu'r terfyn amser ar gyfer cychwyn erlyniad, sef un flwyddyn o'r dyddiad y daw tystiolaeth ddigonol i sylw'r erlynydd i warantu dwyn achos. Mae hyn yn ddarostyngedig i'r cyfyngiad cyffredinol na cheir cychwyn erlyniad ar ôl mwy na thair blynedd ar ôl cyflawni'r tramgwydd.

**Adran 50 Tramgwyddau gan gyrff corfforaethol**

111. Mae adran 50 yn darparu, pan fo tramgwydd wedi ei gyflawni gan gorff corfforaethol, bod swyddogion y corff hwnnw yn agored i'w herlyn ac i'w cosbi ynglŷn â hynny, os profir bod tramgwydd wedi ei gyflawni gyda'u cydsyniad neu'u hymoddefiad, neu fod y tramgwydd i'w briodoli i unrhyw esgeulustod ar eu rhan.

**Adran 51 Cymdeithasau anghorfforedig**

112. Mae adran 51 yn darparu, pan fo tramgwydd wedi ei gyflawni gan gymdeithas anghorfforedig, bod rhaid dwyn achos yn enw'r gymdeithas (ac nid yn enw unrhyw un o'i haelodau). Bydd rheolau llys yn gymwys o ran cyflwyno dogfennau i gymdeithas anghorfforedig fel petai'n gorff corfforaethol. Mae'n darparu hefyd, fel yn achos corff corfforaethol, fod swyddog neu aelod o'r gymdeithas yn euog o dramgwydd os cyflawnir tramgwydd gyda chydsyniad neu ymoddefiad y swyddog neu aelod, neu oherwydd unrhyw esgeulustod ar ran swyddog y gymdeithas neu aelod o'i chorff llywodraethu, a gall y swyddog neu aelod fod yn agored i'w erlyn, yn ogystal â'r gymdeithas. Mae is-adran (3) yn gwneud darpariaeth ynglŷn â'r amgylchiadau pan gaiff cymdeithas ei chynrychioli mewn achos gan berson a awdurdodir yn briodol. Mae is-adran (4) yn darparu bod dirwy a osodir ar gymdeithas anghorfforedig i'w thalu allan o gronfeydd y gymdeithas.

**Adran 52 Swyddogaethau awdurdodau lleol**

113. Caiff rheoliadau a wneir o dan yr adran hon wneud yn ofynnol bod awdurdod lleol yn sicrhau y darperir gwybodaeth neu gyngor ynghylch gwarchod plant a gofal dydd, a sicrhau y darperir hyfforddiant ynglŷn â darparu gwasanaethau gwarchod plant a gofal dydd i blant.

**Adran 53 Ffioedd**

114. Caiff rheoliadau bennu a gwneud darpariaethau ynglŷn â thalu ffioedd gan warchodwyr plant a darparwyr gofal dydd cofrestredig i Weinidogion Cymru, gan gynnwys yr amgylchiadau pan ganiateir hepgor ffioedd o'r fath.

#### **Section 49: Time limit for proceedings**

110. Section 49 sets the time limit for bringing a prosecution at one year from the date on which sufficient evidence to warrant the proceedings comes to the prosecutor's knowledge. This is subject to the overall limit that no prosecution may be brought more than three years after the commission of the offence.

#### **Section 50: Offences by bodies corporate**

111. Section 50 provides that where an offence is committed by a body corporate, officers of that body may be liable to be prosecuted and punished accordingly, if it is proved that an offence is committed with their consent or connivance or is due to any neglect on their part.

#### **Section 51: Unincorporated associations**

112. Section 51 makes provision that where an offence is committed by an unincorporated association, proceedings must be brought in the name of the association (and not in the name of any of its members). Rules of court apply in relation to the service of documents on an unincorporated association as if they were a body corporate. It also provides, just as with a body corporate, that an officer or member of the association is guilty of an offence if it is committed with their consent or connivance or is due to any neglect on their part of an officer of the association or a member of its governing body and they may be liable to prosecution as well as the association. Subsection (3) makes provision about the circumstances in which an association may be represented in proceedings by a duly authorised person. Subsection (4) provides that a fine imposed on an unincorporated association is to be paid out of the association's funds.

#### **Section 52: Functions of local authorities**

113. Regulations made under this section can set out and make provision for a local authority to secure provision of information or advice about child minding and day care and to secure the provision of training about the provision of child minding and day care.

#### **Section 53: Fees**

114. Regulations can set out and make provision for registered child minders or day care providers to pay fees to the Welsh Ministers, including the circumstances when such fees may be waived.

#### **Adran 54 Cydweithredu rhwng awdurdodau**

115. Mae adran 54 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud am gymorth gan awdurdod lleol er mwyn cyflawni eu swyddogaeth, a bod rhaid i awdurdod lleol gydymffurfio â'r cais hwnnw, os yw'n gydnaws â dyletswyddau statudol a dyletswyddau eraill yr awdurdod ac nad yw'n amharu yn ormodol ar gyflawni unrhyw un o'i swyddogaethau.

#### **Adran 55 Hysbysiadau**

116. Mae adran 55 yn gwneud darpariaeth ynglŷn â dyroddi hysbysiadau i Weinidogion Cymru gan warchodwr plant neu ddarparydd gofal dydd o dan adran 33 (Tynnu oddi ar y gofrestr yn wirfoddol) neu hysbysiadau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 36 (Gweithdrefnau ar gyfer cymryd camau penodol).

#### **Adran 56 Marwolaeth person cofrestredig**

117. Mae adran 56 yn darparu pŵer i wneud rheoliadau i ymdrin â'r sefyllfa pan fydd farw yr unig berson cofrestredig ar gyfer busnes gofal dydd, fel bod modd rhedeg y busnes gofal dydd am gyfnod penodol. Mae'r adran hefyd yn caniatáu i reoliadau osod gofyniad ar gynrychiolwyr personol gwarchodwr plant neu ddarparydd gofal dydd i hysbysu Gweinidogion Cymru o'r marwolaeth.

### **Rhan 3: Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd**

#### **Adran 57 Sefydlu timau integredig cymorth i deuluoedd (TICD)**

118. Mae adran 57 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sefydlu un neu ragor o dimau integredig cymorth i deuluoedd (TICD) yn eu hardal. Mae'n gosod dyletswyddau hefyd ar y Bwrdd Iechyd Lleol sy'n gweithredu dros yr ardal i weithredu fel partner i gynorthwyo'r awdurdod lleol mewn ffordd weithgar i sefydlu TICD a chynorthwyo awdurdod lleol mewn ffordd weithgar i gyflawni ei ddyletswyddau o ran TICD. Mae'n galluogi dau neu ragor o awdurdodau lleol i gydweithredu i sefydlu un neu ragor o TICDau ar gyfer eu dwy ardal (neu bob un o'u hardaloedd).

#### **Adran 58 Swyddogaethau timau integredig cymorth i deuluoedd (TICDau)**

119. Mae adran 58 yn pennu'r hyn y mae'n rhaid i TICD ei wneud. Swyddogaeth y TICD yw ymdrin ag achosion teulu pan fo anghenion oedolion mewn perthynas ag alcohol neu gyffuriau, trais domestig, iechyd meddwl neu anabledd dysgu yn gysylltiedig â chanlyniadau andwyol i blant yr oedolion hynny. Bydd y timau yn dod â phroffesiynolion ynghyd o'r awdurdod lleol

#### **Section 54: Co-operation between authorities**

115. Section 54 provides for the Welsh Ministers to request the help of a local authority to assist in the exercise of the Welsh Ministers' functions. A local authority must comply with the request if it is compatible with its own statutory and other duties and does not unduly prejudice the discharge of any of its functions.

#### **Section 55: Notices**

116. Section 55 makes provision about notices to be issued by a child minder or day care provider to the Welsh Ministers under section 33 (voluntary removal from the register) or notices issued by the Welsh Ministers under section 36 (procedure for taking certain steps).

#### **Section 56: Death of registered person**

117. Section 56 provides the power to make regulations to deal with the position where a sole registered person for a day care business dies so that the day care business can be carried on for a certain period. The section also allows for regulations to impose a requirement on the personal representatives of a child minder or day care provider to notify the Welsh Ministers of the death.

### **Part 3: Integrated Family Support Teams**

#### **Section 57: Establishment of integrated family support teams**

118. Section 57 places a duty on local authorities to establish one or more integrated family support teams (IFST) in their area. It also places duties on the Local Health Board which covers the area to act as a partner to actively assist the local authority in establishing an IFST and actively assist a local authority to discharge its duties with regard to IFST. It enables two or more local authorities to act together to establish one or more IFSTs for both (or all) their areas.

#### **Section 58: Functions of integrated family support teams**

119. Section 58 sets out what an IFST does. The IFST's function is to deal with family cases where the needs of adults in relation to alcohol or drugs, domestic violence, mental health or learning disability are linked to adverse consequences for the children of those adults. The teams will bring together professionals from the local authority and Local Health Board involved to address both adults' and childrens' issues within a single organisation.

a'r bwrdd iechyd lleol o dan sylw i fynd i'r afael â materion oedolion a phlant o fewn un corff.

120. O dan is-adran (2) caiff Gweinidogion Cymru ragnodi mewn rheoliadau swyddogaethau awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol sy'n berthnasol i'r mathau o achosion y bydd y timau yn ymdrin â hwy. Mae'r swyddogaethau hyn wedi eu diffinio yn y Mesur fel "swyddogaethau cymorth i deuluoedd" ac mae'r awdurdod lleol i nodi'r swyddogaethau cymorth i deuluoedd sydd yw cyflawni gan TICD. Bydd angen cydsyniad y bwrdd iechyd lleol ar gyfer priodoli'r swyddogaethau hyn. Nid person cyfreithiol ar wahân yw'r TICD. Mae'n gyfrwng a sefydlir gan yr awdurdod lleol gyda chyfranogaeth y bwrdd iechyd lleol y bydd pob un o'r cyrff hynny'n cyflawni swyddogaethau penodol drwyddo mewn modd cydweithredol.
121. Mae is-adran (5) yn egluro y daw atgyfeiriadau at TICD o'r awdurdod lleol.
122. Yn is-adrannau (6) a (7) pennir y mathau o achosion y caniateir eu hatgyfeirio i TICD. Y rhain yw teuluoedd lle mae "rhiant" (fel y'i diffinnir) yn wynebu un o nifer o anawsterau penodedig, a phlentyn y rhiant hwnnw naill ai'n "blentyn mewn angen" fel y'i diffinnir neu'n "blentyn sy'n derbyn gofal" (fel y'i diffinnir). Mae'r darpariaethau yn cynnwys rhiant plentyn nad yw eto wedi ei eni, ac yn caniatáu atgyfeirio at unigolion eraill sy'n gysylltiedig â'r plentyn.
123. Mae is-adran (8) yn gosod dyletswydd benodol ar dîm i werthuso a chofnodi effeithiolrwydd ei waith. Mae is-adran (10) yn pennu bod yr atebolrwydd am gyflawni swyddogaethau awdurdod lleol a chyflawni swyddogaethau byrddau iechyd lleol yn aros gyda'r cyrff hynny yn y drefn honno. Mae is-adran (11) yn gwneud yn eglur nad yw unrhyw swyddogaethau a bennir i'r tîm yn cael eu trosglwyddo iddo yn gyfan gwbl, ond yn hytrach yn parhau i gael eu harfer gan yr awdurdod lleol neu'r bwrdd iechyd lleol mewn perthynas â'r rheini na chânt, neu na ellir, eu hatgyfeirio i TICD.

## **Adran 59 Adnoddau ar gyfer timau integredig cymorth i deuluoedd**

124. Mae adran 59 yn galluogi awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol i wneud trefniadau i dalu am y gwariant a achosir wrth sefydlu a rhedeg TICD naill ai drwy wneud taliadau uniongyrchol neu dalu i gronfa a sefydlir ac a gynhelir gan yr awdurdod lleol. Mae is-adran (2) yn caniatáu i reoliadau ddarparu ar gyfer gwahanol agweddau ymarferol ar gyllido TICDau. Mae is-adran (3) yn ymwneud ag adnoddau ac eithrio arian, er enghraifft cyfuno staff, a mangreuedd.

120. Under subsection (2) the Welsh Ministers may prescribe in regulations functions of local authorities and Local Health Boards which are relevant to the types of cases which will be dealt with by the teams. These functions are defined in the Measure as “family support functions” and the local authority is to identify the family support functions which are to be carried out by an IFST. This assigning of functions will require the consent of the Local Health Board. The IFST is not a separate legal person; it is a vehicle established by the local authority with the participation of the Local Health Board within which each of those bodies will carry out particular functions collaboratively.
121. Subsection (5) makes clear that referrals to an IFST will come from the local authority.
122. Subsection (6) and (7) set out the types of case which can be referred to an IFST. These are families where a “parent” (as defined) has one of a number of specified difficulties and a child of that parent is either a “child in need” (as defined) or a “looked after child” (as defined). The provisions include a parent of an unborn child and also allow for referral of other individuals connected with the child.
123. Subsection (9) gives a team a specific duty to evaluate and record the effectiveness of its work. Subsection (11) specifies that the carrying out of local authority functions and the carrying out of Local Health Board functions remains the liability of those bodies. Subsection (12) makes clear that any functions assigned to the team are not wholly transferred to it but will continue to be exercised by the local authority or local health board in relation to those who are not, or cannot be referred to an IFST.

#### **Section 59: Resources for integrated family support teams**

124. Section 59 enables a local authority and a Local Health Board to make arrangements to pay for expenditure connected to establishing and running an IFST by paying directly or by contributing to a fund, established and maintained by the local authority. Subsection (2) provides for various practical aspects of funding of IFSTs to be set out in regulations. Subsection (3) covers resources other than cash for example pooling of staff, premises.

#### **Section 60: Composition of integrated family support teams**

125. Section 60 places a duty on a local authority to ensure that IFSTs include the relevant professionals who are prescribed in regulations. Regulations will therefore be able to determine the professional make-

**Adran 60 Cyfansoddiad timau integredig cymorth i deuluoedd**

125. Mae adran 60 yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i sicrhau bod TICDau yn cynnwys y gweithwyr proffesiynol perthnasol a ragnodir mewn rheoliadau. Bydd modd felly penderfynu drwy reoliadau gyfansoddiad proffesiynol y timau. Mae is-adran (2) yn rhoi pŵer i awdurdod lleol gynnwys personau eraill (yn ychwanegol at y rhai a ragnodir) yn y TICD, gyda chydysniad y Bwrdd Iechyd Lleol.

**Adran 61 Sefydlu byrddau integredig cymorth i deuluoedd**

126. Mae adran 61 yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol i sefydlu Bwrdd Integredig Cymorth i Deuluoedd ar gyfer ei ardal. Mae adran 58(4) yn ei gwneud yn ofynnol i TICD gyflawni ei swyddogaethau o dan gyfarwyddyd ei fwrdd. Rhaid i'r bwrdd gynnwys:

- cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol;
- cyfarwyddwr arweiniol statudol y gwasanaethau plant a phobl ifanc (o dan a.27 o Ddeddf Plant 2004 (p 21)) os nad ef yw'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol;
- y swyddog arweiniol dros wasanaethau plant a phobl ifanc o'r Bwrdd Iechyd Lleol.

127. Mae'r darpariaethau yn galluogi awdurdodau lleol i gyfethol aelodau eraill i'r Bwrdd gyda chydysniad y Bwrdd Iechyd Lleol ac i dalu taliadau a lwfansau i aelodau cyfetholedig a benodir o dan is-adran (5).

**Adran 62 Swyddogaethau byrddau integredig cymorth i deuluoedd**

128. Mae adran 62 yn rhestru swyddogaethau bwrdd ICD ar ffurf amcanion. Mae is-adran (2) yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy eu pwerau i wneud rheoliadau, i bennu swyddogaethau a fyddai'n dweud sut y mae'n rhaid i fwrdd ICD fodloni'r amcanion. Yn y rhestr o amcanion y byrddau, mae is-adran 1(b) yn cynnwys yr amcan bod yr awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol yn hybu arferion da, p'un ai drwy ddarparu hyfforddiant neu drwy ddull arall, o fewn eu hardaloedd, sy'n estyn ymhellach na'r TICD ei hun.

**Adran 63 Rheoliadau ynghylch timau a byrddau integredig cymorth i deuluoedd**

129. Mae adran 63 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch gwahanol agweddau ar y TICDau ac ar weithrediad y bwrdd ICD.



up of the teams. Subsection (2) gives a local authority power to include other persons (in addition to those prescribed) in the IFST if they have the consent of the Local Health Board.

### **Section 61: Establishment of integrated family support boards**

126. Section 61 places a duty on each local authority to establish an Integrated Family Support Board (“IFS Board”) for its area. Section 58(4) requires an IFST to carry out its functions under the direction of its IFS board. The IFS Board must include:

- the director of social services;
- the statutory lead director of children and young people services (under section 27 of the 2004 Act) if this is not the director of social services;
- the lead officer for children and young people services from the Local Health Board.

127. Provisions enable local authorities to co-opt other members to the IFS Board with the consent of the Local Health Board and to pay remuneration and allowances to co-opted members appointed under subsection (5).

### **Section 62: Functions of integrated family support boards**

128. Section 62 expresses as objectives the functions of an IFS Board. Subsection (2) enables the Welsh Ministers through their regulation-making powers to specify functions which would say how an IFS Board must meet the objectives. Within the list of the IFS Board’s objectives, subsection (1)(b) includes the objective for the local authority and Local Health Board to promote good practice, whether by providing training or other means, within their areas that goes wider than the IFST itself.

### **Section 63: Regulations about integrated family support teams and boards**

129. Section 63 gives the Welsh Ministers power to make regulations about various aspects of the functioning of the IFST and the IFS Board.

### **Section 64: Annual reports on integrated family support teams**

130. Section 64 places a duty on IFSTs to provide an annual report on their effectiveness. The report must be made available at local level to the local authority, to the Local Health Board and to the Welsh Ministers.

**Adran 64 Adroddiadau blynyddol ar dimau integredig cymorth i deuluoedd**

130. Mae adran 64 yn gosod dyletswydd ar TICDau i ddarparu adroddiad blynyddol ar eu heffeithiolrwydd. Rhaid rhoi'r adroddiad ar gael yn lleol i'r awdurdod lleol, i'r bwrdd iechyd lleol a hefyd i Weinidogion Cymru.

**Adran 65 Canllawiau ynghylch timau integredig cymorth i deuluoedd**

131. Mae adran 65 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol, bwrdd iechyd lleol, y TICD a'r Bwrdd ICD roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru wrth arfer eu pwerau / swyddogaethau o dan Ran 3 o'r Mesur.

## **Rhan 4 - Amrywiol a chyffredinol**

**Adran 66 Swyddogion safonau gwaith cymdeithasol teuluol**

132. Mae adran 66 yn ei gwneud yn ofynnol i bob ardal awdurdod lleol i benodi swyddog dynodedig (swyddog safonau gwaith cymdeithasol teuluol) a fydd â chyfrifoldeb penodol am godi safonau mewn arferion gwaith cymdeithasol a hyrwyddo'r defnydd o ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn perthynas â plant a phersonau sy'n gofalu amdanynt. Mae cylch gwaith y swyddog safonau gwaith cymdeithasol teuluol yn ymestyn i'r holl arferion gwaith cymdeithasol sy'n berthnasol i blant.

**Adran 67 Anghenion plant sy'n codi o anghenion gofal cymunedol eu rhieni**

133. Mae adran 67 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol, wrth asesu anghenion oedolion am wasanaethau gofal cymunedol, i ystyried hefyd anghenion unrhyw blant y mae'r oedolion hynny yn gyfrifol am ofalu amdanynt, ac ystyried a yw effaith anghenion yr oedolion ar eu gallu i rianta yn golygu bod plentyn, yn ei dro, yn "blentyn mewn angen" yn nhermau adran 17 o Ddeddf Plant 1989.
134. Ar ôl ystyried a yw'n ymddangos ai peidio bod plentyn yn blentyn mewn angen, rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu a ddylid gwneud y plentyn yn destun asesiad o dan adran 17 o Ddeddf Plant 1989 ac wedyn a ddylid darparu unrhyw wasanaethau ai peidio.
135. Mae is-adran 4 wedyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol gymryd cyfrif o'r ystyriaeth sydd wedi ei rhoi i anghenion y plentyn wrth benderfynu beth yw anghenion y rhiant o dan adran 47(1)(b) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990.

## **Section 65: Guidance about integrated family support teams**

131. Section 65 requires that a local authority, a Local Health Board, IFST and the IFS Board have regard to any guidance issued by the Welsh Ministers in respect of exercising their powers / functions under Part 3 of the Measure.

## **Part 4: Miscellaneous and General**

### **Section 66: Family social work standards officers**

132. Section 66 requires each local authority area to appoint a designated officer (family social work standards officer) who will have specific responsibility for raising standards in social work practice and promoting use of evidence-based research in relation to children and persons who care for them. The remit of the family social work standards officer extends to all social work practice which has a bearing on children.

### **Section 67: Children's needs arising from community care needs of their parents**

133. Section 67 imposes a duty on local authorities, when assessing the needs of adults for community care services, to consider also the needs of any children for whom the adult has caring responsibilities and consider whether the impact of the adults' needs on their ability to parent indicate that the child in turn is a "child in need" in the terms of section 17 of the 1989 Act.
134. Having considered whether or not the child does appear to be a child in need, the local authority must decide whether to make the child the subject of an assessment under section 17 of the 1989 Act and then whether or not to provide any services.
135. Subsection (4) then requires the local authority to take account of the consideration given to the child's needs in deciding what are the needs of the parent are under section 47(1)(b) of the National Health Service and Community Care Act 1990.

### **Section 68: Children's needs arising from the health conditions of their parents**

136. This section complements the provision in section 67 by imposing a duty on NHS bodies, when certain health services are provided, to make suitable arrangements to consider whether the health needs of a parent are such that any children may be eligible for services from a

**Adran 68 Anghenion plant sy'n codi o anghenion gofal iechyd rhieni**

136. Mae'r adran hon yn ategu'r ddarpariaeth yn adran 67 drwy osod dyletswydd ar gyrff GIG, pan ddarperir gwasanaethau iechyd penodol, i wneud trefniadau addas ar gyfer ystyried a yw anghenion iechyd rhiant yn peri bod unrhyw blant y mae'r oedolyn yn gofalu amdanynt yn gymwys i gael gwasanaethau gan awdurdod lleol o dan adran 17 o Ddeddf Plant 1989 neu ddarpariaeth arall. Rhaid i'r corff iechyd hefyd wneud trefniadau addas ar gyfer atgyfeirio achosion priodol at yr awdurdod lleol perthnasol, ond mae'r ddyletswydd hon yn ddarostyngedig i unrhyw ddyletswydd i'r plentyn neu i'r gofalwr ynglŷn â datgelu gwybodaeth, boed ddyletswydd cyfrinachedd o dan gyfraith gwlad neu ddyletswydd i'r sawl sy'n destun yr wybodaeth o dan Ddeddf Diogelu Data 1998.

**Adran 69 Swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol**

137. Mae adran 69, yn darparu ar gyfer newid canlyniadol yn Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970, drwy ehangu ystyr "swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol" ("social services functions") i gynnwys TICDau a Byrddau ICD, swyddogion safonau gwaith cymdeithasol teuluol (a. 66) ac ystyried anghenion plant wrth asesu rhieni (a. 67).

**Adran 70 Canllawiau**

138. Mae adran 70 yn gwneud darpariaethau ynglŷn ag unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru i gyrff y mae'n rhaid iddynt roi sylw i ganllawiau o'r fath.

**Adran 71 Dehongli'n gyffredinol**

139. Mae adran 71 yn diffinio termau a ddefnyddir yn y Mesur.

**Adran 72 Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol**

140. Nodir mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol yn Atodlen 1.

**Adran 73 Diddymiadau**

141. Nodir y diddymiadau yn Atodlen 2.

**Adran 74 Gorchmynion a Rheoliadau**

142. Mae unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud gorchmyn neu reoliadau o dan y Mesur hwn yn arferadwy drwy offeryn statudol. Mae is-adrannau (2) i (5) yn pennu'r trefniadau mewn perthynas â gorchmynion a rheoliadau. Ceir arfer y pŵer i wneud rheoliadau gan ddarparu'n wahanol ar

local authority whether under section 17 of the 1989 Act or another provision. The health body must also make suitable arrangements for referral of appropriate cases to the relevant local authority but this duty is subject to any duty owed to the child or carer in relation to disclosure of information whether under a common law duty of confidentiality or any duty owed to the subject of the information under the Data Protection Act 1998.

### **Section 69: Social services functions**

137. Section 69 provides for a consequential change to Schedule 1 of the Local Authority Social Services Act 1970 to extend the meaning of “social services functions” to include the functions relating to an IFST and IFS Boards, family social work standards officers (section 66) and consideration of the needs of children when assessing parents (section 67).

### **Section 70: Guidance**

138. Section 70 sets out certain provisions in respect of any guidance issued by the Welsh Ministers to bodies that must have regard to it.

### **Section 71: General interpretation**

139. Section 71 sets out definitions for terms used within the Measure.

### **Section 72: Minor and consequential amendments**

140. Minor and consequential amendments are set out in Schedule 1.

### **Section 73: Repeals**

141. Repeals are set out in Schedule 2.

### **Section 74: Orders and Regulations**

142. Any power of the Welsh Ministers to make an order or regulations under the Measure is exercisable by statutory instrument. Subsection (2) to (5) set out the arrangements in respect of orders and regulations. The power to make regulations may be exercised so as to make different provision for different cases or areas or purposes and to make general provision or provision which is specific to a particular case or particular class of cases.

gyfer gwahanol achosion neu ardaloedd neu ddibenion, a chan wneud darpariaeth gyffredinol neu ddarpariaeth ar gyfer achos penodol neu ddsbarth penodol o achosion.

## **Adran 75 Cychwyn**

143. Mae adran 75 yn pennu'r trefniadau ar gyfer cychwyn y Mesur o ran yr adrannau 1, 2, 3, 74, 75 a 76. Daw gweddill y darpariaethau sydd yn y mesur i gyd i rym pan gychwynir hwy drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru.

## **Adran 76 Enw byr**

144. Enw byr y Mesur yw 'Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010'.

## **Cofnod y trafodion yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru**

Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau a'r cyfeiriadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Mesur hwn drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

|  |                  |
|--|------------------|
| Cyflwynwyd   | 2 Mawrth 2009    |
| Cyfnod 1 – Y Pwyllgor Craffu yn ystyried y mesur arfaethedig                   | 11 Mawrth 2009   |
| Cyfnod 1 – Y Pwyllgor Craffu yn ystyried tystiolaeth                           | 25 Mawrth 2009   |
| Cyfnod 1 – Y Pwyllgor Craffu yn ystyried tystiolaeth                           | 11 Ebrill 2009   |
| Cyfnod 1 – Y Pwyllgor Craffu yn ystyried tystiolaeth                           | 30 Ebrill 2009   |
| Cyfnod 1 – Y Pwyllgor Craffu yn ystyried tystiolaeth                           | 7 Mai 2009       |
| Cyfnod 1 – Y Pwyllgor Craffu yn ystyried tystiolaeth                           | 11 Mai 2009      |
| Cyfnod 1 – Y Pwyllgor Craffu yn ystyried tystiolaeth                           | 14 Mai 2009      |
| Cyfnod 1 – Y Pwyllgor Craffu yn ystyried tystiolaeth                           | 21 Mai 2009      |
| Cyfnod 1 – Y Pwyllgor Craffu yn ystyried tystiolaeth                           | 4 Mehefin 2009   |
| Cyfnod 1 – Y Pwyllgor Craffu yn ystyried y materion sy'n weddill a'r adroddiad | 11 Mehefin 2009  |
| Cyfnod 1 – Dadl yn y Cyfarfod Llawn ynghylch yr egwyddorion cyffredinol        | 30 Mehefin 2009  |
| Cyfnod 2 – Y Pwyllgor Craffu yn ystyried y diwygiadau                          | 1 Hydref 2009    |
| Cyfnod 3 – Y Cyfarfod Llawn yn ystyried y diwygiadau                           | 10 Tachwedd 2009 |
| Cyfnod 4 – Dadl i basio Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) yn y Cyfarfod Llawn   | 10 Tachwedd 2009 |
| Dyddiad y Gymeradwyaeth Frenhinol  | 10 Chwefror 2010 |

## **Section 75: Commencement**

143. Section 75 sets out the arrangements for commencement of the Measure in respect of Sections 1, 2, 3, 74, 75 and 76. All other remaining provisions come into force when commenced by the Welsh Ministers by order.

## **Section 76: Short title**

144. The short title of the Measure is ‘the Children and Families (Wales) Measure 2010’.

## **RECORD OF PROCEEDINGS IN THE ASSEMBLY**

The following table sets out the dates and references for each stage of this Measure’s passage through the Assembly.

|   |                  |
|---|------------------|
| Introduced  | 2 March 2009     |
| Stage 1 – Scrutiny Committee Consideration of proposed measure                | 11 March 2009    |
| Stage 1 – Scrutiny Committee Consideration of evidence                        | 25 March 2009    |
| Stage 1 – Scrutiny Committee Consideration of evidence                        | 11 April 2009    |
| Stage 1 – Scrutiny Committee Consideration of evidence                        | 30 April 2009    |
| Stage 1 – Scrutiny Committee Consideration of evidence                        | 7 May 2009       |
| Stage 1 – Scrutiny Committee Consideration of evidence                        | 11 May 2009      |
| Stage 1 – Scrutiny Committee Consideration of evidence                        | 14 May 2009      |
| Stage 1 – Scrutiny Committee Consideration of evidence                        | 21 May 2009      |
| Stage 1 – Scrutiny Committee Consideration of evidence                        | 4 June 2009      |
| Stage 1 – Scrutiny Committee Consideration of outstanding issues and report   | 11 June 2009     |
| Stage 1 – Debate in plenary on general principles                             | 30 June 2009     |
| Stage 2 – Scrutiny Committee consideration of amendments                      | 1 October 2009   |
| Stage 3 – Plenary consideration of amendments                                 | 10 November 2009 |
| Stage 4 – Debate to pass the Children and Families (Wales) Measure in Plenary | 10 November 2009 |
| Date of Royal Approval  | 10 February 2010 |

**Cyhoeddwyd gan (The Stationery Office)**  
ac mae ar gael oddi wrth:

**Online**  
[www.tsoshop.co.uk](http://www.tsoshop.co.uk)

**Mail, Telephone, Fax & E-mail**  
TSO  
PO Box 29, Norwich NR3 1GN  
Archebion / ymholiadau ffôn 0870 600 5522  
Archebion ffacs 0870 600 5533  
[book.orders@theso.co.uk](mailto:book.orders@theso.co.uk)  
<http://www.ukstate.com>

**Siopau Llyfrau The Stationery Office**  
16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD  
028 9023 8451 Ffacs 028 9023 5401

**The Parliamentary Bookshop**  
12 Bridge Street, Parliament Square,  
Llundain SW1A 2JX  
Archebion dros y ffôn/ Ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890  
Archebion ffacs: 020 7219 3866  
E-bost: [bookshop@parliament.uk](mailto:bookshop@parliament.uk)  
Gwefan: <http://www.bookshop.parliament.uk>

**TSO @ Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill**

**Published by TSO (The Stationery Office)**  
and available from:

**Online**  
[www.tsoshop.co.uk](http://www.tsoshop.co.uk)

**Mail, Telephone, Fax & E-mail**  
TSO  
PO Box 29, Norwich NR3 1GN  
General enquiries: 0870 600 5522  
Order through the Parliamentary Hotline *Lo-call* 0845 7 023474  
Fax orders: 0870 600 5533  
E-mail: [customer.service@tso.co.uk](mailto:customer.service@tso.co.uk)  
Textphone: 0870 240 3701

**TSO Shops**  
16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD  
028 9023 8451 Fax 028 9023 5401

**The Parliamentary Bookshop**  
12 Bridge Street, Parliament Square,  
London SW1A 2JX  
Telephone orders/General enquiries: 020 7219 3890  
Fax orders: 020 7219 3866  
Email: [bookshop@parliament.uk](mailto:bookshop@parliament.uk)  
Internet: <http://www.bookshop.parliament.uk>

**TSO @ Blackwell and other Accredited Agents**

ISBN 978-0-348-10515-5



9 780348 105155